# Sefydlu cronfa o dan reolaeth y rhoddwr

Mae rhoi arian i elusen yn ymddangos fel rhywbeth sy'n hawdd i'w wneud, ond gyda mwy na 30,000 o elusennau cofrestredig a miloedd yn rhagor o grwpiau cymunedol yng Nghymru, gall fod yn anodd gwybod ble i ddechrau ac i bwy y dylech roi.

Dyma ble y gall y Sefydliad Cymunedol Cymru eich helpu.

Bydd rhoi drwom ni yn eich galluogi i ganolbwyntio ar sut a ble yr hoffech roi. P'un a hoffech roi arian i gael effaith ar unwaith neu sefydlu cymynrodd hirdymor, bydd sefydlu cronfa o dan reolaeth y rhoddwr yn eich helpu i sianelu eich rhoddion i'r hyn sy'n bwysig i chi.

Mae cronfa o dan reolaeth y rhoddwr yn ffordd amgen o sefydlu ymddiriedolaeth elusennol, sy'n cynnig buddiannau ymddiriedolaeth breifat heb y baich llywodraethu, diwydrwydd dyladwy ac adroddiadau ariannol. Gallwch hefyd ddewis pa mor weithredol yr hoffech fod a dewis aros yn ddienw os mai hynny sy'n addas i chi.

Gyda chyngor gan ein harbenigwyr ym maes cyllid, rhoi i elusennau a rheoli grantiau, gallwch greu cronfa o dan reolaeth y rhoddwr sy'n darparu strwythur wedi'i deilwra i chi er mwyn cefnogi eich rhoddion ac sy'n sicrhau y caiff eich dyngarwch ei lywio gan yr hyn sy'n bwysig i chi.



## Gellir sefydlu cronfa o dan reolaeth y rhoddwr mewn un o dair ffordd:

### Gwaddol

Rhodd lle y gallwch nodi sut, pryd ac ar beth yr hoffech i'ch arian gael ei wario. Gan mai cronfa waddol yw hon, caiff y swm ei fuddsoddi gan sicrhau bod y rhodd rydych yn ei gadael yn parhau i roi ac yn parhau i fod o fudd i bobl a chymunedau ymhellach ar ôl i chi farw.

### Effaith uniongyrchol

Rhodd lle y gallwch nodi sut, ble ac ar beth yr hoffech i'ch rhodd gael ei gwario a byddwn yn gweinyddu'r grantiau yn unol â'ch dymuniadau nes bydd yr arian yn dod i ben.

### Cymysgedd

Cyfuniad o gronfeydd gwaddol ac effaith uniongyrchol.

## Sut allwn ni eich cefnogi chi:

- Gyda chronfa o dan reolaeth y rhoddwr, rydym yn eich cefnogi i lywio rhaglen grantiau a defnyddio ein rhwydwaith helaeth o grwpiau trydydd sector ar hyd a lled Cymru er mwyn sicrhau bod eich cronfa yn cyrraedd y rhai y mae ei hangen fwyaf arnynt.
- Byddwn yn hyrwyddo eich cronfa, yn sicrhau ymwybyddiaeth uchel ymhlith y gymuned leol ac yn monitro effaith eich cymorth yn rheolaidd, fel y gallwn helpu i lywio eich penderfyniadau rhoi yn y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth cyslltwch Katy Hales, Cyfarwyddwr Dyngarol,
trwy e-bostio katy@communityfoundationwales.org.uk neu ffonwich 02920 379580